Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Graphic Design

## Competition Overview

Graphic designers have specialist skills to design and handle images and text across a wide range of contexts from print to digital and UX design, posters to motion graphics and animation.

In this competition, competitors have to develop and demonstrate a variety of creative and technical skills that are essential within the contemporary graphic communication and creative industries.

One Live competition will be held at a venue in Wales.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in Graphic Design and studying on vocational courses up to Level 3.
Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 3 entries per organisation plus maximum of 3 reserves can be registered incase of absence
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

## Brief

### Passive Brief

Below are three companies who are looking for an exciting and

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

unique rebrand. Please note these companies currently do not exist; they have been made up for the purpose of the competition.

| Company Name | Details about the company |
| --- | --- |
| . <br><br> ***The Arcade*** | The Arcade is a retro gaming app where participants can access and subsequently play a host of 80’s & 90’s games. This platform is a celebration of all the retro gaming vibe that is currently on trend. Alongside the gaming element the platform hopes to build a community of retro gaming fanatics.<br><br>Games available on the platform will be but not exclusive to; Sonic, Super Mario Kart, Sonic the Hedgehog, Pac Man, Tetris.<br><br>***Audience****: Young gamers who are exploring retro games alongside looking to build a community of gaming friends.* |
| ***Cos-Cycle*** | Be a hero of recycling! This platform has a web and app version is a place for comic con outfits to be resold. An ebay specially for this genre of clothing.<br><br>The site will have a number of areas to build the audience:<br>Section 1 - Build and make own outfits<br>Section 2 - Trading outfits both homemade and purchased<br>Section 3 - Community of comic con<br><br>***Audience*** - *Comic con goers who often spend large quantities of money on outfits this is a platform of sharing and upcycling attire that is often worn only once.* |
| ***The Wave***<br><br>Location: Whitesands beach, St Davids, Pembrokeshire. | The Wave is an organisation that offers surf lessons to those with severe mental health issues and adaptive surfing.<br>Based on the welsh coastline, harnessing the power of the waves to improve mental health and give the disabled freedom to experience the wave.<br>As a registered charity The Wave is continually reaching for funding options from donations, running local events and wider fundraising.<br><br>***Audience*** - *Young people who have mental health issues or are disabled looking for wave therapy.* |

Choose **one** of the above companies to create a strong, unique and modern brand image for the business.
Create an appropriate logo for the business which can be used on their website, social media and used to advertise the company. Please submit designs for a logo and icon for Instagram, Facebook and a Facebook cover image.

*Consider how the logo has the potential to be used for animation and interaction. Supporting materials to demonstrate applications across different platforms or applications.*

**Deadline:** 13th December, 2022
**Submit**: Supporting materials, logo, instagram icon, facebook icon and facebook cover image. Plus any animations you have created (not essential).
Please send **ALL** of your original photoshop files along with exported jpegs.
**Share via Google Drive to:** olivia.sills@colegsirgar.ac.uk
This will be using the below marking criteria:

| **Criterion ID** | **Description** | **Max. Marks** |
|---|---|---|
| **A** | Design Process | 25 |
| **B** | Presentation | 15 |
| **C** | Design Outcome | 40 |
| **D** | Technical Aspects and Output | 20 |
| | **Total Marks** | **100** |

You will know if you have got through to the final by 5pm friday 16th December, 2022.

Practice makes perfect! Test your knowledge using briefs from the past few years, see this site: https://sites.google.com/colegsirgar.ac.uk/skills-competitions-wales/home

**Competition Day / Live Heat**

The Skills Competitions Wales, Graphic Design, will be held between 16th January and 5th February 2023, location tbc.

All competitors will have the use of an individual iMac with the Adobe Creative Suite and access to the internet. Wacom Graphics Tablets will also be available. All competitors will have access to pens, paper, drawing materials and a printer.

## Competition Rules

- Use only the materials supplied in the Digital Media Pack.
- Competitors must work independently (without support from other students/tutors)
- Refrain from including offensive, sexual, political, controversial or inflammatory text or images.
- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.
- Competitors are solely responsible for the saving of their own files, especially in the unfortunate event of a computer malfunction. Instructions will be given as to where the files need to be saved.
- Competitors are not allowed to use any materials other than that supplied for the set project by the event Competition Supervisor. No prepared work will be allowed in the competition.

For full terms and conditions of entry and competition rules visit [www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

The marking criteria of the competition will reflect the relative significance of particular design form within the workflow, paying particular attention to the following areas.

| Criterion ID | Description | Max. Marks |
|---|---|---|
| **A** | Design Process | 25 |

| | | |
|---|---|---|
| **B** | Presentation | 15 |
| **C** | Design Outcome | 40 |
| **D** | Technical Aspects and Output | 20 |
| | **Total Marks** | **100** |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 9th March 2023, where the First, Second and Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

## Competition Lead

Olivia Sills
Olivia.sills@colegsirgar.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Dylunio Graffig

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Yn y gystadleuaeth hon, mae'n rhaid i gystadleuwyr ddatblygu a dangos amrywiaeth o sgiliau creadigol a thechnegol sy'n hanfodol yn y diwydiannau cyfathrebu graffig a chreadigol cyfoes.

Mae gan ddylunwyr graffig sgiliau arbenigol i ddylunio a thrafod delweddau a thestun ar draws ystod eang o gyd-destunau o brint i ddylunio digidol ac UX, posteri i graffeg symud ac animeiddio.

Bydd un gystadleuaeth Fyw yn cael ei chynnal mewn lleoliad yng Nghymru.

## Meini Prawf Ymgeisio

Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa mewn Dylunio Graffig ac yn astudio ar gwrs galwedigaethol hyd at Lefel 3.

Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gyflawni'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad

Uchafswm o hyd at 3 ymgais i bob sefydliad a gellir cofrestru uchafswm o 3 wrth gefn rhag ofn absenoldeb.
Dyma'r nifer uchaf o gynigion a ganiateir gan sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Mae hyn yn cael ei bennu gan 'leoliad' a 'sefydliad'. Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio / yn cael ei gyflogi. I gael arweiniad pellach ar y galluoedd hyn, cliciwch yma

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

## Briff

### Briff Goddefol

Isod mae tri chwmni sy'n chwilio am ail-frandio cyffrous ac unigryw. Sylwch nad yw'r cwmnïau hyn yn bodoli ar hyn o bryd; maen nhw wedi cael eu dyfeisio at bwrpas y gystadleuaeth.

| Enw’r Cwmni | Manylion am y cwmni |
|---|---|
| Yr Arcêd | Mae'r Arcêd yn app hapchwarae retro lle gall cyfranogwyr gael mynediad ac yna chwarae llu o gemau'r 80au a'r 90au. Mae'r platfform hwn yn ddathliad o'r holl hapchwarae retro ei naws sydd yn boblogaidd ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â'r elfen hapchwarae mae'r platfform yn gobeithio adeiladu cymuned o gefnogwyr gemau retro.<br><br>Bydd y gemau sydd ar gael ar y platfform yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i; Sonic, Super Mario Kart, Sonic the Hedgehog, Pac Man, Tetris.<br><br>*Cynulleidfa: Chwaraewyr ifanc sy'n archwilio gemau retro ochr yn ochr ag edrych i adeiladu cymuned o ffrindiau hapchwarae.* |
| *Cylch-Cos* | Byddwch yn arwr ailgylchu! Mae gan y platfform hwn fersiwn we a fersiwn app ar gyfer ail werthu gwisgoedd comic con, sef Ebay yn arbennig ar gyfer y genre hwn o ddillad.<br><br>Bydd gan y wefan nifer o feysydd i adeiladu cynulleidfa:<br>Adran 1 - Adeiladu a gwneud eich gwisgoedd eich hun<br>Adran 2 - Gwerthu gwisgoedd a wnaed gartref a rhai a brynwyd<br>Adran 3 - Cymuned o comic con<br><br>*Cynulleidfa - Mynychwyr comig con sy'n aml yn gwario llawer iawn o arian ar wisgoedd. Mae hwn yn blatfform lle gellir rhannu ac uwchgylchu gwisgoedd sy'n aml ond yn cael ei gwisgo unwaith yn unig.* |
| Y Don - The Wave<br><br>Lleoliad: Traeth y Porth Mawr, Tyddewi, Sir Benfro. | Mae Y Don - The Wave, yn sefydliad sy’n cynnig gwersi syrffio i’r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a syrffio addasol.<br>Mae Y Don - The Wave, yn sefydliad sy’n cynnig gwersi syrffio i’r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a syrffio addasol.<br>Fel elusen gofrestredig mae Y Don - The Wave yn chwilio'n barhaus am opsiynau ariannu gan gynnwys rhoddion, cynnal |

| | |
|---|---|
| | digwyddiadau codi arian lleol ac ehangach.<br><br>*Cynulleidfa - Pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n anabl yn chwilio am therapi tonnau.* |

Dewiswch **un** o'r cwmnïau uchod i greu delwedd brand gref, unigryw a modern ar gyfer y busnes.
Crëwch logo priodol ar gyfer y busnes y gellir ei ddefnyddio ar eu gwefan, cyfryngau cymdeithasol a'i ddefnyddio i hysbysebu'r cwmni. Cyflwynwch ddyluniadau ar gyfer logo ac eicon ar gyfer Instagram, Facebook a delwedd clawr Facebook.

*Ystyriwch sut mae gan y logo y potensial i gael ei ddefnyddio ar gyfer animeiddio a rhyngweithio. Deunyddiau ategol i arddangos rhaglenni ar draws gwahanol lwyfannau neu raglenni.*

**Dyddiad cau**: 13 Rhagfyr, 2023
**Cyflwyno**: Deunyddiau ategol, logo, eicon Instagram, eicon Facebook a delwedd clawr Facebook. Ynghyd ag unrhyw animeiddiadau rydych chi wedi'u creu (ddim yn hanfodol).
Anfonwch **BOB UN** o'ch ffeiliau photoshop gwreiddiol ynghyd â jpegs wedi'u hallgludo.
**Rhannwch trwy Google Drive i**: olivia.sills@colegsirgar.ac.uk

Bydd hyn yn defnyddio'r meini prawf marcio isod:

| Cyfeirnod Maen Prawf | Disgrifiad | Uchafswm Marciau |
|---|---|---|
| **A** | Proses Ddylunio | 25 |
| **B** | Cyflwyniad | 15 |
| **D** | Canlyniad Dylunio | 40 |
| **E** | Agweddau Technegol ac Allbwn | 20 |
| | **Cyfanswm Marciau** | **100** |

Byddwch yn gwybod a ydych wedi cyrraedd y rownd derfynol erbyn 5pm dydd Gwener 16 Rhagfyr, 2022.
Meistr pob gwaith yw ymarfer! Profwch eich gwybodaeth gan ddefnyddio briffiau o'r blynyddoedd diwethaf, gweler y wefan hon

https://sites.google.com/colegsirgar.ac.uk/skills-competitions-wales/home

**Diwrnod y Gystadleuaeth / Rownd Fyw**

Cynhelir Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, Dylunio Graffig, rhwng 16 Ionawr a 5 Chwefror 2023, lleoliad i'w gadarnhau.

Bydd pob cystadleuydd yn cael defnyddio iMac unigol gyda'r Adobe Creative Suite a mynediad i'r rhyngrwyd. Bydd e-lechi graffeg Wacom hefyd ar gael. Bydd gan bob cystadleuydd fynediad at beniau, papur, deunyddiau tynnu llun ac argraffydd.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

• Defnyddiwch y deunyddiau a gyflenwir yn y Pecyn Cyfryngau Digidol yn unig.
• Rhaid i gystadleuwyr weithio'n annibynnol (heb gefnogaeth myfyrwyr / tiwtoriaid eraill)
• Peidiwch â chynnwys testun neu ddelweddau tramgwyddus, rhywiol, gwleidyddol, dadleuol neu ymfflamychol.
• Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod y cystadlu.
• Caniateir gwrando ar gerddoriaeth trwy glustffonau yn ystod y cystadlu.
• Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y cystadlu at banel beirniaid y gystadleuaeth.
• Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod y cystadlu.
• Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd mewn pryd ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir unrhyw amser ychwanegol os byddwch chi'n cyrraedd yn hwyr.
• Dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Rhoddir amser ychwanegol os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.
• Ni fydd mynediad i'r Rhyngrwyd ar gael trwy gydol y gystadleuaeth.
• Mae cystadleuwyr yn llwyr gyfrifol am arbed eu ffeiliau eu hunain, yn enwedig os bydd cyfrifiadur yn anffodus yn camweithio. Rhoddir cyfarwyddiadau ynghylch ble mae angen cadw'r ffeiliau.
• Rhaid i'r cystadleuwyr beidio â gweithio, cyffwrdd â'r cyfrifiadur nac unrhyw ddeunydd arall sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth cyn y signal cychwyn, a rhaid iddyn nhw roi'r gorau i weithio a pheidio â chyffwrdd â'r cyfrifiadur nac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth ar ôl y signal stopio. Mae hyn hefyd yn wir am y signalau egwyl ginio.
• Ni chaniateir i gystadleuwyr ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau heblaw'r deunyddiau a gyflenwir ar gyfer y prosiect penodol gan Oruchwyliwr Cystadleuaeth y digwyddiad. Ni chaniateir unrhyw waith wedi'i baratoi yn y gystadleuaeth.

I gael y telerau ac amodau ymgeisio llawn a'r rheolau cystadlu, ewch i www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions

## Marcio ac Asesu

Bydd marcio a beirniadu'r gystadleuaeth hon yn cael ei wneud gan dîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu Ddarparwr Hyfforddiant, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau a ddyrennir i sicrhau cysondeb.

Bydd meini prawf marcio'r gystadleuaeth yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol ffurf ddylunio benodol yn y llif gwaith, gan roi sylw arbennig i'r meysydd canlynol.

| **Cyfeirnod y Maen Prawf** | **Disgrifiad** | **Uchafswm Marciau** |
|---|---|---|
| **A** | Proses Ddylunio | 25 |
| **B** | Cyflwyniad | 15 |
| **C** | Canlyniad Dylunio | 40 |
| **D** | Agweddau Technegol ac Allbwn | 20 |
| | Cyfanswm Marciau | 100 |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar i Unigolion a Grwpiau yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na dyfarniadau yn cael eu dyfarnu ar y diwrnod gan y bydd ansawdd y marcio yn cael ei sicrhau.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ac yn cael ei wahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 9eg Mawrth 2023, lle bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyfleu i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marcio ar gael i gystadleuwyr ar ôl i'r broses sicrhau ansawdd gael ei chwblhau.

## Arweinydd y Gystad leuaeth

Olivia Sills
Olivia.sills@colegsirgar.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022